

## Ffocws y Pwnc

Hanes lleol, ymchwiliad hanesyddol, llythrennedd a thrin data

## Crynodeb

Mae gweithgareddau'r pwnc hwn yn galluogi i blant archwilio safle claddu fel cyswllt â'r gorffennol. Bydd y plant yn ymchwilio i'r cerrig beddau, y cofadeiladau a'r cofgolofnau. Byddant yn datgelu'r straeon am y bobl sydd wedi'u claddu yno ac yn dod i ddeall mwy am bwy fu'n byw o'u blaen yn eu cymuned, a sut roeddent yn byw. Mae'r cerrig beddau'n coffau bywydau a bydd y disgyblion yn eu defnyddio fel prif ffynhonnell o dystiolaeth hanesyddol a hefyd fel ffynhonnell o wybodaeth ar gyfer casglu data.

Dyma'r gweithgareddau: Ditectif Data, Ar Gof a Chadw, Oes Dda, Cewri Lleol.

## CSBC, CA1 a CA2

### Sgiliau Allweddol

Ymchwilio  
Cydymdeimlo  
Canfod  
Arsylwi  
Llunio Casgliadau

### Geiriau Allweddol

Tystiolaeth

## Cysylltiadau Cwricwlwm

Mae gweithgareddau'r pwnc hwn yn helpu i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y disgyblion mewn Hanes, Llythrennedd, Mathemateg a Chyfrifiadura.

### CSBC

Deall y Byd

Pobl a chymunedau

Datblygiad Mathemategol



### Dyfarniad John Muir

**Darganfod**

**Archwilio**

**Gwarchod**

**Rhannu**



Rhowch gynnig ar y gweithgareddau canlynol os ydych yn gweithio tuag at unrhyw rai o'r bathodynau canlynol:

**Enfys** – Edrych a Dysgu

**Beavers** - Gweithgaredd Archwilio

**Cybiau** - Gweithgaredd Gwybodaeth Leol

**Guides** - Diwylliant

**Sgowtiaid** - Gweithgaredd Treftadaeth, Gweithgaredd Fy Ffydd I

## Ditectif Data

Mae'r gweithgareddau mathemateg a awgrymir yn cynnwys amrywiaeth o syniadau ymarferol ar gyfer casglu data yn eich safle claddu lleol. Maent yn cynnig i blant ddetholiad o gwestiynau i ymchwilio iddynt ac i'w herio i gynnal eu hymchwiliad eu hunain. Mae'r prosiectau trin data ymarferol yn ben agored ac mae'n hawdd gwahaniaethu rhyngddynt er mwyn diwallu anghenion y grwpiau unigol, fel bod y plant yn gallu casglu, trefnu a dehongli'r data mewn ffyrdd amrywiol, gan ddefnyddio'r safle claddu i gyd, neu ran ohono.

### Canlyniadau Dysgu

Bydd y plant yn gwneud y canlynol:

- Dilyn ymchwiliad a phenderfynu pa wybodaeth sy'n bwysig
- Ateb cwestiynau drwy gasglu, dethol, prosesu, cyflwyno a dehongli data

### Cwestiynau Allweddol

**Pa wybodaeth fydd rhaid i chi ei chasglu? Sut byddwch yn ei chasglu? Beth mae eich data yn ei ddweud wrthyhch?**

### Syniadau ar gyfer Gweithgareddau: Cwestiynau Posib

Gallai'r plant ddewis un o'r cwestiynau canlynol i ymchwilio iddo neu gallent ddyfeisio eu cwestiwn eu hunain.

Oedd merched yn byw yn hirach na dynion?

Ym mha ddegawd wnaeth y nifer mwyaf o farwolaethau ddigwydd?

Beth yw oedran y bobl sydd wedi'u claddu mewn degawd penodol ar gyfartaledd?

Beth yw'r symbol mwyaf poblogaidd ar y cerrig beddau yn y safle claddu?

Pa garreg sydd wedi cael ei defnyddio amlaf, neu siâp y gofgolofn?

### Sesiwn i Bawb

Dywedwch wrth ffrind am dri pheth rydych chi wedi'u darganfod o'r data rydych chi wedi'u casglu.

### Yn Ôl yn yr Ysgol

Penderfynwch sut rydych yn mynd i gyflwyno eich darganfyddiadau.

- Gwnewch graff llinell/siart cylch/siart bar i ddangos y canlyniadau.
- Beth mae'r data'n ei ddweud wrthyhch?
- Cyfrifwch y cymedr/modd/canolrif/amrediad/canrannau a'r ffracsïynau.
- Cymharwch eich data â darganfyddiadau eraill.
- Ysgrifennwch ddatganiadau mathemategol gan ddefnyddio'r data.
- Defnyddiwch TGCh i wella'r gwaith o gyflwyno'r data.

**Ymchwiliad mathemategol arall** – Chwiliwch am y person hynaf sydd wedi'i gladdu yn y safle claddu. Ymchwiliwch i sawl carreg fedd gan edrych ar sawl blwyddyn, mis, wythnos, diwrnod y buont yn fyw.

**CSBC** – Chwiliwch am rifau penodol neu gyfateb rhifau a chwilio am siapiau.

